OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 664 (Cy.54)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *8 Mawrth 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl iddo ymgynghori a'r personnau hynny y mae'n ofynnol, gan adran 4(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**), iddo ymgynghori â hwy, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

### Dirymu

**2.** Dirymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002(**2**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
8 Mawrth 2005 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1999 p.27.
(**2**) 0.S. 2002/757 (Cy. 80)
(**3**) 1998 p.38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002 a oedd yn pennu, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeiriwyd atynt er mwyn mesur perfformiad cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol (fel awdurdodau gwerth gorau), wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2002. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2005.

Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 yn pennu, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt wrth fesur perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2005.